


Richard a Mary Johnson (pâr)

Cyfranogwyr – Amser Dishgled

**1. Allwch chi ddweud ychydig wrthym amdanoch chi'ch hun a sut oedd bywyd cyn i chi ymwneud â'r Ffwrnes Fach?**

Treuliais y rhan fwyaf o fy mywyd i ffwrdd o'r cartref yn gweithio ar longau ac yn y pen draw, nes i sylwi bod Mary wedi newid cymaint, dyna pryd y dechreuon ni amau'r dementia ofnadwy. Felly ro’dd yn rhaid i fi bacio'r gwaith i fyny. Nes i arafu fy ngwaith, a dod yn diwtor i fechgyn y fyddin wrth atgyweirio offer. Ro’n i’n gallu gweld ei fod yn mynd yn anodd i Mary felly nes i ymddeol.

**2. Sut wnaethoch chi ymwneud â'r Ffwrnes Fach? Beth oeddech chi'n gobeithio fyddai'n digwydd o ganlyniad i ymwneud?**

Roedd hynny trwy ein merch; mae hi'n gwneud gwaith cymdeithasol ac ar y pryd roedd yn nyrs ac awgrymodd y gallai fod o ryw fudd ac ers hynny ni wedi elwa'n fawr o'r grŵp. Yn wir, dyma uchafbwynt ein wythnos.

**3. O ganlyniad i gymryd rhan, beth ydych chi'n meddwl sydd wedi bod y newid mwyaf arwyddocaol i chi'n bersonol?**

Cwrdd â phobl. Lle ni'n byw nawr mae'n dawel iawn a dy’n ni ddim yn gyfarwydd â hynny gan ein bod ni o Fryste ac mae sŵn yn ffactor byddwch yn arfer ag e’ yno. Mae cymaint o sŵn dy’ch chi hyd yn oed ddim yn sylwi. Peth mawr yw cael croeso yma ac mae'r staff a'r gwirfoddolwyr mor ofalus. Mae'n bleser dod yma.

**4. Beth achosodd y newid hwn?**

Dim ond siarad â phobl nad o’n ni’n eu hadnabod ac ma’ hynny i gyd i lawr i barodrwydd pobl. Mae'n gwneud i chi gwrdd â phobol byddech chi ddim yn eu cyfarfod fel arall yn eich bywyd.

**5. Pe baech yn dweud wrth bobl eraill am People Speak Up, beth fyddech chi'n ei ddweud?**

Mae'n werth dod, mae'r agwedd gymdeithasol yn wych. Byddem yn dweud dewch draw. Ni hefyd yn mynd i Amser Dishgled Caerfyrddin yn ogystal ag yma yn Llanelli. Rwy'n meddwl bod y bobl ifanc yn gwneud cwpanau te da ac mae'n braf gweld pobl ifanc yn cymryd rhan.

Mae'r amrywiaeth o bethau chi'n eu gwneud yn wych, mae cymaint yn digwydd.

**6. Pa deitl fyddech chi'n ei roi i'ch stori?**

Grŵp cyfeillgarwch.